

**Arolygiad Monitro'r  
Ddeddf Iechyd Meddwl  
(Dirybudd)  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Abertawe Bro Morgannwg:  
Ysbyty Llwyneryr**

15 Ebrill 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**Ebost:** [agic@wales.gsi.gov.uk](mailto:agic@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	4
2. Methodoleg.....	5
3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth.....	6
4. Crynodeb.....	7
5. Canfyddiadau .....	8
Safonau Craidd .....	8
Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl.....	13
6. Y Camau Nesaf .....	17
Atodiad A.....	18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru. Ers mis Ebrill 2009, AGIC sydd wedi bod yn gyfrifol am fonitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae ein harolygiadau Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a gynigir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, rydym yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitro eu cydymffurfiaid â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Canolbwynt arolygiadau'r Ddeddf Iechyd Meddwl AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n cael mynediad at wasanaethau o'r fath yn:

- Ddiogel
- Derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- Cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- Cael eu hannog i wneud dewisiadau
- Cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- Gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- Cael eu cynorthwyo i gynnal cydberthnasau â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

## 2. Methodoleg

Mae'r model mae AGIC yn ei ddefnyddio i gyflawni arolygiadau'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys y canlynol:

- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff
- Archwilio dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Ystyried ansawdd y bwyd

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol sydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar gyfer y broses arolygu. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

### 3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl o Uned Asesu a Thriniaeth Llwyneryr , Abertawe, ar 15 Ebrill 2015.

Mae Uned Asesu a Thriniaeth Llwyneryr yn ysbyty anableddau dysgu sy'n cynnwys ward ag wyth gwely, sy'n darparu gofal i gleifion â diagnosis deul o anabledd dysgu a phroblem iechyd meddwl. Mae Uned Asesu a Thriniaeth Llwyneryr yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Yn ystod ein harolygiad, adolygwyd cofnodion cleifion, cyfwelwyd cleifion a staff, adolygwyd yr amgylchedd gofal ac arsylwyd ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm arolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac un aelod o staff AGIC.

## 4. Crynodeb

Mae Uned Asesu a Thriniaeth Llwyneryr yn ysbyty anableddau dysgu a adeiladwyd i'r diben. Roedd amgylchedd digynnwrf a hamddenol trwy gydol ein hymweliad. Er bod angen gwaith cynnal a chadw ar fannau yn yr uned ar adeg ein harolygiad, roedd gwaith ailwampio ac addurno yn mynd rhagddo, ac fe'n hysbyswyd y byddai hyn yn mynd i'r afael â'r diffygion hyn.

Roedd yr uned wedi'i chyfarparu â dodrefn a oedd yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion, ond gellid gwneud gwelliannau i'r amgylchedd er mwyn bodloni anghenion arbennig y cleifion. Er enghraifft, trwy ddatblygu'r therapi synhwyrdd sydd ar gael i'r cleifion.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty, a'u bod yn cael gofal da. Dywedodd y cleifion hefyd fod y staff yn barod eu cymwynas, ac wedi inni weld dogfennau'r cleifion roedd yn amlwg bod y cleifion, teuluoedd a'r gofalmwr yn cyfrannu at ofal cleifion.

Gwnaethom adolygu sampl o'r ddogfennaeth statudol, a gweld eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Er bod absenoldeb Adran 17<sup>1</sup> yn cael ei awdurdodi yn unol â'r Ddeddf, rydym yn teimlo y gellid gwella'r maes hwn yn unol ag arferion da.

Roedd yn destun pryder inni glywed bod swydd Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn dal i fod yn wag, yn sgil ymadawiad daliad blaenorol y swydd.

---

<sup>1</sup> Roedd caniatâd i adael tiroedd yr ysbyty'n cael ei awdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf.

## 5. Canfyddiadau

### *Safonau Craidd*

#### **Amgylchedd y Ward**

Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y mynediad wedi'i ddiogelu gan glo â chod rhifau i rwystro pobl rhag cael mynediad ato heb awdurdod. Nid oedd y drws wedi'i gloi o'r tu mewn; roedd y cleifion yn gallu mynd allan o'r ward gan ddefnyddio'r botwm i ryddhau'r clo. Pe bai angen cloi'r drws, yn seiliedig ar benderfyniad clinigol i atal cleifion penodol rhag gadael y ward, byddai hyn yn cael ei gofnodi yn y cofnod ar gyfer cloi'r drws. Mae'r bwrdd iechyd yn monitro pa mor aml mae hyn yn digwydd. Os yw'r drws yn cael ei gloi, mae'r ward yn arddangos gwybodaeth sy'n esbonio i'r cleifion sy'n cael gadael y ward sut y gallant wneud hynny, os ydynt yn dymuno.

Ar adeg ein harolygiad dirybudd, roedd gwaith cynnal a chadw ac ailaddurno yn mynd rhagddo ar y ward. Roedd yr uned i'w gweld yn lân, ac yn gyffredinol nid oedd annibendod nac aroglau amhleserus neu aroglau clinigol ynddi.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod sawl man ar y ward lle mae difrod a achoswyd gan ymddygiad rhai cleifion; roedd hyn fwyaf amlwg o amgylch fframiau drysau'r ystafelloedd gwely. Fe'n hysbyswyd bod archebion wedi eu cyflwyno am waith cynnal a chadw yn y manau hyn, a'u bod yn rhan o'r rhaglen bresennol o waith a oedd yn mynd rhagddo ar adeg yr ymweliad.

Roedd y waliau yn y manau cymunedol i'w gweld yn noeth, ond fe'n hysbyswyd bod lluniau wedi eu tynnu oddi arnynt oherwydd y gwaith addurno parhaus, ac roeddent yn aros i'r tîm cynnal a chadw ailosod y lluniau ar y waliau.

Roedd gan y cleifion fynediad uniongyrchol at y lolfa gymunedol, ac at ardd gaeedig fawr. Roedd y cleifion yn gallu ysmegu yn y man hwn, ond gwelsom fod rhan o'r bin ar gyfer gweddillion sigarêts ar goll, ac felly nid oedd yn cael ei ddefnyddio. Mae angen rhoi bin newydd yno

#### ***Argymhelliad***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod y gwaith cynnal a chadw ar y ward wedi'i gwblhau.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod lluniau a phaentiadau a dynnwyd oddi ar y wal ar gyfer y gwaith ailaddurno wedi cael eu gosod yn ôl.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod bin newydd wedi'i osod ar gyfer gweddillion sigarêts.***



## **Diogelwch**

Dyweddod y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn Ysbyty Llwyneryr. Mae modd i'r staff gyrchu polisi arsylwi'r bwrdd iechyd ar y ward a thrwy ddefnyddio system gyfrifiadurol y bwrdd iechyd. Ym mhob un o'r manau cleifion, roedd gosodion a ffitiadau'r ysbyty yn rhai heb rwymynnau. Dywedodd y staff eu bod yn cynyddu'r lefelau arsylwi, os oes angen, i adlewyrchu'r risg y gallai ymddygiad unrhyw gleifion penodol ei hachosi.

Roedd yr holl staff sy'n gweithio yn yr ysbyty wedi derbyn Hyfforddiant Rheoli Ymddygiad yn Gadarnhaol. Gwelsom staff yn dad-ddwysáu ac yn ailgyfeirio cleifion mewn ffordd urddasol a gofalgarg. Nid yw'r ysbyty yn defnyddio ymwahanu<sup>2</sup>.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd y staff yn cario larymau personol. Fe'n hysbyswyd bod larymau ar gael, a bod y staff yn derbyn larymau os oedd staff risg clinigol yn ystyried bod angen.

## **Y tîm amlddisgyblaethol**

Mae'r tîm nyrsio craidd ar gyfer yr ysbyty yn cynnwys dwy nyrs gofrestredig a thri chynorthwydd nyrsio yn ystod y dydd, ac un nyrs gofrestredig ac un cynorthwydd nyrsio yn ystod y nos. Fe'n hysbyswyd bod o leiaf un aelod o staff gwrywaidd ar ddyletswydd bob amser.

Mae'r holl nyrsys cofrestredig sy'n gweithio yn Ysbyty Llwyneryr wedi derbyn hyfforddiant anabledau dysgu. Dywedodd y staff fod y lefelau nyrsio a'r cymysgedd sgiliau'n briodol ar gyfer y grŵp cleifion presennol; roeddem yn teimlo bod y staffio ar ddiwrnod yr arolygiad yn ddigonol. Fe'n hysbyswyd bod un swydd wag ar gyfer nyrs yn yr ysbyty, a bod y bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio ar gyfer y swydd hon.

Nid yw Ysbyty Llwyneryr yn defnyddio staff banc y bwrdd iechyd na staff asiantaeth. Roedd y tîm staff presennol yn yr ysbyty yn gweithio'r rotâu staffio, ac roeddent yn gyfarwydd â'r grŵp cleifion. Os oes diffyg staff, mae'r ysbyty'n defnyddio staff o gyfarwyddiaeth Anabledau Dysgu'r Bwrdd Iechyd. Os oes angen cymorth staffio ar fyr rybudd ar yr ysbyty, mae'r ysbyty'n gallu defnyddio staff o'r uned anabledau dysgu gyfagos, Dan y Deri.

Mae rowndiau ward amlddisgyblaethol bob wythnos, a chyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol misol; gellir cynnal y rhain yn fwy aml os oes angen er mwyn gofalu am gleifion. Wedi inni adolygu nodiadau'r cleifion, roedd yn galonogol gweld bod teuluoedd cleifion, yn ogystal â gofalwyr ac eiriolwyr, yn

---

<sup>2</sup> Cadw claf o dan oruchwyliaeth mewn ystafell a all fod o dan glo.

cael eu cynnwys, a rhoddir ystyriaeth i'w safbwyntiau yng nghyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol.

### **Preifatrwydd ac urddas**

Mae gan y cleifion ystafelloedd gwely unigol ac nid yw'r rhain yn en suite. Fodd bynnag, mae toiledau ac ystafelloedd ymolchi ym mhob un o goridorau'r ystafelloedd gwely. Roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd eu hunain. Gwnaethom sylweddoli, fodd bynnag, bod gosodion a ffitiadau rhai o'r cleifion yn eu hystafelloedd wedi'u difrodi neu ar goll. Gwnaethom nodi hefyd bod rhai o ddrysau'r cypyrddau a rhai llenni ar goll.

Nid oedd un o ystafelloedd ymolchi'r ysbyty'n cael ei defnyddio, oherwydd roedd y llawr wedi'i ddifrodi; roedd hyn wedi cael ei adrodd, ac roedd yn aros i'r staff cynnal a chadw ei drwsio. Mynegodd y staff bryderon fod y ffordd y mae'r ystafelloedd ymolchi wedi eu trefnu yn gallu peri trafferthion i bobl â phroblemau symudedd. Fe'n hysbyswyd mai dim ond gydag un o'r baths y gellir defnyddio'r offer codi, gan fod y baths eraill yn rhy lydan.

Roedd gan y ward gadair arbenigol hefyd ar gyfer helpu cleifion i gael cawod. Fodd bynnag, penderfynwyd peidio â defnyddio'r gadair arbenigol hon ar ôl digwyddiad gyda'r un model mewn lleoliad y tu allan i'r bwrdd iechyd. Roedd y gadair yn dal i gael ei chadw yn yr ysbyty, ac ni ddarparwyd cadair arall, felly roedd hyn yn cyfyngu ar allu rhai cleifion i gael cawod.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn modd gofalgar a pharchus. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn barod eu cymwynas ac yn garedig.

Roedd yn bleser nodi bod cyfleusterau golchi dillad ar y ward, ac roedd y cleifion yn gallu golchi a smwddio eu dillad, gyda chymorth y staff, fel rhan o'r broses o gynnal neu ddatblygu sgiliau'r cleifion. Fodd bynnag, pe na bai cleifion yn gallu golchi eu dillad byddai staff yn gwneud hyn ar eu rhan. Mae angen i'r bwrdd iechyd fonitro hyn er mwyn sicrhau nad yw amser nyrsio'n cael ei ailgyfeirio oddi ar ofal cleifion oherwydd eu bod yn golchi dillad cleifion. Roedd gan gleifion amseroedd neilltuedig mewn amserlen wythnosol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu golchi eu dillad. Roedd gan bob claf fasged golchi dillad yn ei ystafell, a'i ran ei hun o'r ystafell golchi dillad, er mwyn sicrhau nad oedd darnau o ddillad yn cael eu colli.

### ***Argymhelliad***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r dodrefn a'r gosodion a'r ffitiadau yn ystafell pob claf er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trwsio neu fod rhai newydd yn cael eu prynu yn ôl yr angen.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ffordd y mae'r ystafelloedd ymolchi wedi eu trefnu er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer cleifion sy'n defnyddio cymhorthion symudedd ac/neu sydd angen cymorth.***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu argaeledd cadair arbenigol ar gyfer cynorthwyo cleifion wrth iddynt gael cawod.***

### **Therapiau a gweithgareddau i gleifion**

Mae gan y cleifion gynlluniau gweithgareddau a therapi unigol, ac roeddent yn gallu dewis pa weithgareddau a therapiau yr oeddent am eu gwneud bob dydd, ynghyd â set o weithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'u hanghenion penodol a'u galluoedd. Roedd gan yr ysbyty ystafell weithgareddau, ac roedd sesiwn therapi celf unwaith un bore bob wythnos.

Roedd yn bleser gweld bod yr ysbyty wedi datblygu ystafell feddal â lloriau meddal er mwyn ymdrin ag ymddygiad un claf penodol. Cadarnhaodd y staff eu bod yn ceisio datblygu'r ystafell ymhellach, a rhoi waliau a dodrefn meddal ynddi.

Roedd yr ysbyty wedi dechrau defnyddio cyfarpar synhwyrdd symudol mewn un o'r ystafelloedd, ac mae'r cleifion yn mwynhau hyn. Mae hyn yn rhan o'r gweithgareddau therapiwtig y mae'r ysbyty am eu datblygu ymhellach er mwyn bod o fudd i'r grŵp cleifion.

Fe'n hysbyswyd hefyd y byddai'r ystafell ysmegu a ddatgomisiynwyd yn ddiweddar yn cael ei hailddatblygu i fod yn lolfa fach ac yn lle ar gyfer ymlacio. Bydd y cleifion yn elwa ar hyn oherwydd byddant yn cael man ychwanegol i ffwrdd o'r brif lolfa gymunedol.

Oherwydd lleoliad Ysbyty Llwyneryr, roedd ganddynt fynediad hawdd at gyfleusterau lleol megis siopau a pharc cyfagos. Mae gan yr ysbyty gerbyd penodol hefyd, fel bod y staff yn gallu mynd â'r cleifion ar deithiau cymunedol sy'n bellach i ffwrdd, megis traethau lleol. Pan oedd yn briodol, roedd y cleifion hefyd yn gallu gadael yr ysbyty gyda'u teulu a/neu eu gofalwyr.

### ***Argymhelliad***

***Dylai'r bwrdd iechyd gyflwyno diweddariad ynglŷn â'r gwaith o ddatblygu'r ystafell feddal.***

***Dylai'r bwrdd iechyd gyflwyno diweddariad ynglŷn â'r gwaith o ddatblygu gweithgareddau therapiwtig synhwyrdd.***

***Dylai'r bwrdd iechyd gyflwyno diweddariad ynglŷn â'r gwaith o ailddatblygu'r ystafell ysmegu a ddatgomisiynwyd.***

## **Gofal iechyd cyffredinol**

Darperir ar gyfer anghenion iechyd y cleifion gan feddygon yn Ysbyty Llwyneryr. Fe'n hysbyswyd gan staff bod y cleifion yn mynd i Ysbyty Treforys ar gyfer unrhyw gyflwr na ellir ei drin yn Ysbyty Llwyneryr, os oes angen. Dywedodd y staff fod ganddynt berthynas weithio dda â'r Adran Damweiniau ac Achosion yn Ysbyty Treforys, a bod gan y staff yno ddealltwriaeth dda o anghenion cleifion Ysbyty Llwyneryr.

Fe'n hysbyswyd hefyd fod gan yr ysbyty berthynas waith dda gyda'r gwasanaeth fflebotomi, a bod y staff yn gallu atgyfeirio cleifion i wasanaethau trin traed os oes angen.

Mae'r cleifion yn gweld deintydd cymunedol sy'n arbenigo mewn gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu. Fe'n hysbyswyd bod y deintydd yn ymweld â chlaf yn yr ysbyty pe ystyrid ei fod yn anymarferol mynd â'r claf i bractis deintyddol cymunedol.

Mae'r cleifion yn mynd i weld trinwyr gwallt lleol yn y gymuned, ac maent yn gyfarwydd â'r grŵp cleifion.

## **Bwyd a maeth**

Mae cyfleusterau arlwyio priodol yn yr ysbyty, ac mae'r gegin yn darparu'r prydau bwyd o'r cyflenwad o fwyd oer i'w goginio. Mae'r cleifion yn dewis eu prydau bwyd o fwydlen yr ysbyty; yn ogystal, mae modd i'r staff fod yn hyblyg gyda cheisiadau'r cleifion. Gall y staff hefyd ddarparu prydau bwyd amgen o'r cyflenwad o fwyd a gedwir yng nghegin yr ysbyty. Mae gan yr ysbyty bolisi amseroedd bwyd gwarchoddedig.

Roedd gan y cleifion fynediad at amrywiaeth o fyrbrydau y tu allan i amseroedd bwyd, ac roedd ffrwythau ffres a diodydd ar gael iddynt.

Roedd gan yr ysbyty gyfraniadau gan wasanaethau dietegydd a leolir yn Ysbyty Tywysoges Cymru, er mwyn asesu a monitro'r cleifion. Roedd gan yr ysbyty gyswllt rheolaidd â gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith y bwrdd iechyd.

Gwnaethom nodi bod y gegin yn gynnes iawn, ac fe'n hysbyswyd nad oedd system aerdymheru'r gegin yn gweithio; mae angen trwsio hon neu osod un newydd.

## ***Argymhelliad***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod uned aerdymheru'r gegin yn gweithio'n iawn.***

## ***Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl***

Roedd chwe chlaf yn derbyn gofal yn Ysbyty Llwyneryr, ac roedd pob un ohonynt rhwng 18 a 65 oed. Roedd nifer o gleifion wedi eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar adeg ein harolygiad. Gwnaethom adolygu sampl o'r ddogfennaeth statudol, a gweld ei bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

Roedd yn destun pryder inni glywed nad oedd neb wedi cael ei recriwtio'n barhaol ar gyfer swydd wag arbenigol Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer Ysbyty Llwyneryr .

### ***Argymhelliad***

***Gofynnir i'r bwrdd iechyd roi diweddariad i AGIC am y trefniadau ar gyfer darparu cymorth Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl i Ysbyty Llwyneryr.***

### **Cadw Cleifion**

Roedd y ddogfennaeth ar gyfer pob un o'r cleifion wedi'i chadw<sup>3</sup> yn dangos bod o leiaf un o'r meddygon wedi'i gymeradwyo o dan Adran 12, ac roedd o leiaf un o'r meddygon wedi cwrdd â'r claf o'r blaen<sup>4</sup>.

Yn y papurau cadw Adran 3<sup>5</sup>, ar gyfer un claf gwelsom fod y meddyg, sef clinigydd cyfrifol y claf, wedi nodi nad oedd wedi cwrdd â'r claf o'r blaen. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg bod y meddyg wedi cwrdd â'r claf o'r blaen. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa ei glinigwyr cyfrifol y dylent, lle y bo'n briodol, nodi ar y papurau cadw eu bod wedi cael eu cymeradwyo o dan Adran 12, a'u bod wedi cwrdd â'r claf o'r blaen.

Ym mhob achos, roedd y ddogfennaeth statudol yn nodi pam mai cadw'r claf o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal. Ar gyfer cadw o dan Adran 3, roedd y dogfennau statudol yn nodi bod y triniaethau meddygol priodol ar gael yn Ysbyty Llwyneryr.

Wrth asesu'r cleifion ar gyfer cadw o dan Adran 2<sup>6</sup>, nid oedd y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy bob amser<sup>7</sup> wedi nodi perthynas<sup>8</sup>

---

<sup>3</sup> Meddyg a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru (neu'r Ysgrifennydd Gwladol) dan y Ddeddf fel meddyg sydd â phrofiad arbennig o wneud diagnosis neu drin anhwylder meddyliol. Mewn gwirionedd, mae byrddau iechyd lleol yn gwneud y penderfyniadau hyn ar ran Gweinidogion Cymru.

<sup>4</sup> Pan fo hynny'n ymarferol, dylai o leiaf un o'r meddygon sy'n gwneud yr argymhelliad fod wedi cwrdd â'r claf o'r blaen, yn ôl Adran 12(2) y Ddeddf.

<sup>5</sup> Adran 3 – Derbyn ar gyfer Triniaeth, claf wedi'i gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

<sup>6</sup> Adran 2 – Derbyn ar gyfer Asesiad, claf wedi ei gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

<sup>7</sup> Gweithiwr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Ddeddf ac sydd wedi'i gymeradwyo gan awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol i gyflawni nifer o swyddogaethau dan y Ddeddf.

agosaf y claf a chysylltu ag ef. Lle nad oedd hyn wedi cael ei wneud nid oedd manylion ar gael ynglŷn â pham nad<sup>9</sup> oedd y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy wedi gallu nodi perthynas agosaf y claf.

Wrth asesu'r cleifion ar gyfer cadw o dan Adran 3, roedd y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer y cleifion unigol wedi nodi perthynas agosaf y claf a chysylltu ag ef.

Nid oedd yr un claf wedi bod yn destun cais brys Adran 4<sup>10</sup> nac o dan bwerau cadw Adran 5<sup>11</sup>.

### **Cadw parhaus**

Pan roedd claf wedi bod yn ddarostyngedig i'r cam o adnewyddu'r cyfnod cadw, roedd y ffurflenni rhagnodedig cywir wedi cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd dogfennau statudol yn nodi pam mai cadw'r claf o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal i'r claf o hyd.

### **Apelio yn erbyn cadw claf**

Roedd y cleifion wedi cael eu hysbysu am eu hawliau i apelio yn erbyn cael eu cadw; roedd yn amlwg y byddai'r prosesau'n cael eu dilyn pe bai'r cleifion am apelio i Wrandawiadau Rheolwyr Ysbyty a Thribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl.

### **Rhan 132 – Darparu Gwybodaeth**

Roedd tystiolaeth glir bod y cleifion yn derbyn gwybodaeth reolaidd am fod o dan gadwad ac am eu hawliau o dan y Ddeddf. Lle'r oedd angen, pan oedd y cleifion yn gwrthod cyfathrebu â'r staff, neu os nad oeddent yn gallu deall y wybodaeth, byddai'r staff yn ceisio rhoi'r wybodaeth i'r cleifion yn rheolaidd.

Mae Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol<sup>12</sup> o'r gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol yn mynychu Ysbyty Llwyneryr. Roedd y cleifion yn gallu dewis rhwng siarad â dyn neu fenyw, os oedd yn well ganddynt y naill dros y llall.

---

<sup>8</sup> Unigolyn a ddiffinnir gan adran 26 y Ddeddf, sydd â hawliau a phwerau penodol dan y Ddeddf o ran claf y mae'n berthynas agosaf iddo

<sup>9</sup> Dogfennaeth statudol wedi'i chwblhau gan y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy wrth wneud cais i gadw claf

<sup>10</sup> Cais i gadw claf ar gyfer asesu anhwylder meddyliol wedi'i wneud gydag un argymhelliad meddygol yn unig yn cefnogi'r cais mewn achosion brys.

<sup>11</sup> Y pwerau yn Adran 5 y Ddeddf sy'n caniatáu i gleifion mewnol mewn ysbyty gael eu cadw dros dro fel y gellir gwneud penderfyniad ynglŷn ag a ddylid gwneud cais i'w cadw ai peidio.

<sup>12</sup> Eiriolwr sy'n annibynnol ar y tîm sy'n rhan o ofal y claf sydd ar gael i gefnogi cleifion o dan drefniadau y mae angen eu gwneud yn benodol o dan y Ddeddf.

## **Cydsynio i driniaeth**

Roedd cleifion a oedd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Cydsynio i Driniaeth Adran 58 y Ddeddf wedi eu cofnodi a'u hawdurdodi'n gywir<sup>13</sup>. Roedd copïau o'r tystysgrifau Cydsynio i Driniaeth wedi'u cadw gyda Chofnod Rhoi Meddyginiaethau pob claf, pan yn berthnasol. Lle bu'n rhaid i Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn<sup>14</sup> (SOAD) awdurdodi tystysgrif cydsynio i driniaeth, cafodd cofnod o'r broses hon ei nodi yn nodiadau'r claf.

Lle roedd cleifion yn derbyn meddyginiaeth mewn modd cuddiedig, gwnaethom adolygu'r dogfennau a'r sail resymegol dros hyn. Roedd yn amlwg mai penderfyniad amlddisgyblaethol oedd hwn, a bod teuluoedd y cleifion yn cael eu cynnwys yn y broses. Roedd penderfyniadau i barhau i roi meddyginiaeth mewn modd cuddiedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a daeth hyn i ben wedi i'r claf gydsynio i gymryd ei feddyginiaeth.

Gwnaeth y cleifion y gwnaethom siarad â nhw ddangos dealltwriaeth o'r feddyginiaeth yr oeddent yn ei chymryd, megis unrhyw sgil effeithiau a'r rhesymau dros ei chymryd.

## **Caniatâd i fod yn absennol o dan Adran 17**

Cafodd pob ffurflen awdurdodi absenoldeb ei hawdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf. Fodd bynnag, nid oedd terfyn amser neu ddyddiad adolygu wedi eu nodi ar bob ffurflen awdurdodi absenoldeb. Gwnaethom hefyd nodi bod ffeiliau cleifion yn cynnwys ffurflenni absenoldeb a oedd wedi dod i ben nad oeddent wedi eu marcio'n annilys. Mae'n ar arfer da sicrhau bod ffurflenni absenoldeb sydd wedi dod i ben yn cael eu marcio fel rhai annilys.

Roedd yn amlwg bod teuluoedd a gofalwyr wedi derbyn copïau o ffurflenni awdurdodi absenoldeb pan oedd hyn yn briodol. Cafwyd cofnod yn nodiadau'r cleifion o ba mor llwyddiannus oedd eu habsenoldeb, yn ogystal ag unrhyw broblemau neu bryderon a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod o absenoldeb.

Roedd yr ysbyty wedi nodi risgiau posibl tra bod cleifion ar gyfnod absenoldeb, yn ogystal â'r hyn sy'n achosi'r risgiau a'r camau gweithredu y dylai staff eu cymryd pe baent yn cael eu gwireddu. Fodd bynnag, prin oedd y wybodaeth ynglŷn â'r tebygrwydd y byddai'r risgiau hyn yn cael eu gwireddu.

## ***Argymhelliad***

---

<sup>13</sup> Ffurf ar driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol mae'r rheolau arbennig yn adran 58 y Ddeddf yn berthnasol iddi, sy'n golygu meddyginiaeth ar gyfer anhwylder meddyliol ar gyfer cleifion sydd wedi'u cadw ar ôl cyfnod cychwynnol o dri mis

<sup>14</sup> Meddyg annibynnol a benodir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n rhoi ail farn ynglŷn ag a ddylai rhai mathau o driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol gael eu rhoi heb gydsyniad y claf.

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod terfyn amser neu ddyddiad adolygu wedi ei nodi ar bob ffurflen awdurdodi absenoldeb Adran 17.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ffurflen awdurdodi absenoldeb Adran 17 sydd wedi dod i ben yn cael ei marcio'n annilys.***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr asesiad o risgiau posibl tra bod cleifion ar gyfnod absenoldeb yn cynnwys gwybodaeth am ba mor debygol yw'r risgiau hyn o gael eu gwireddu.***

### **Cleifion cyfyngedig**

Nid oedd unrhyw gleifion wedi'u cadw dan Ran 3 o'r Ddeddf, *Cleifion sy'n gysylltiedig ag achos troseddol neu sydd dan ddedfryd.*



## 6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Llwyneryr yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith iddo gael ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso fel rhan o'r broses barhaus o fonitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

## Atodiad A

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl: Improvement Plan

Bwrdd Iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Ysbyty: Ysbyty Llwyneryr

Dyddiad yr arolygiad: 15 Ebrill 2015

Rhif y Dudalen	Gofyniad / Argymhelliad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Safonau Craidd</b>				
	Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod y gwaith cynnal a chadw ar y ward wedi'i gwblhau.	Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglen waith wedi'i chwblhau. Yr un maes nad yw wedi'i orffen eto yw bleindiau'r ffenestri, ac mae gwaith yn cael ei wneud arnynt ar hyn o bryd.	Rheolwr yr uned – KE	Mai 2015
	Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod lluniau a phaentiadau a dynnwyd oddi ar y wal ar gyfer y	Cwblhawyd	Rheolwr yr uned – KE	Diwedd Mai 2015

	gwaith ailaddurno wedi cael eu gosod yn ôl.			
	Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod bin newydd wedi'i osod ar gyfer gweddillion sigarêts.	Gwnaed archeb ar 6 Mai 2015; rhoddir gwybod i AGIC pan fydd hwn ar waith.	Rheolwr yr uned – KE	Mai 2015
	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r dodrefn a'r gosodion a'r ffitiadau yn ystafell pob claf er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trwsio neu fod rhai newydd yn cael eu prynu yn ôl yr angen.	Mae cynllun misol ar waith i sicrhau bod dodrefn yn cael eu trwsio neu fod dodrefn newydd yn cael eu prynu yn eu lle.  Mae cyfarfodydd chwarterol â'r tîm ystadau yn monitro cynnydd gyda gosodion a ffitiadau.	Rheolwr y gyfarwyddiaeth, prif reolwyr  Prif reolwr – SH	Mai 2015  Mehefin 2015
	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ffordd y mae'r ystafelloedd ymolchi wedi eu trefnu er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer cleifion sy'n defnyddio cymhorthion symudedd ac/neu sydd angen cymorth.	Trefnwyd cyfarfod â'r tîm therapi galwedigaethol, y tîm ystadau a rheolwyr yr uned i adolygu'r ffordd y mae'r ystafelloedd wedi eu trefnu.	Rheolwr yr uned – KE  Prif reolwr – SH	Diwedd Mehefin 2015

	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu argaeledd cadair arbenigol ar gyfer cynorthwyo cleifion wrth iddynt gael cawod.	Mae'r hen gadair wedi'i chondemnio, ac wedi'i symud ymaith; archebwyd cadair newydd.	Rheolwr yr uned – KE	Mehefin 2015
	Dylai'r bwrdd iechyd gyflwyno diweddariad ynglŷn â'r gwaith o ddatblygu'r ystafell feddal.	Bydd yr ystafell feddal yn diwallu anghenion penodol un defnyddiwr gwasanaeth, a bydd y tîm amlddisgyblaethol yn cynnal adolygiad o'r ystafell mewn perthynas â'i anghenion; bydd gwybodaeth yn cael ei hanfon at AGIC.	Rheolwr yr uned – KE	Mehefin 2015
	Dylai'r bwrdd iechyd gyflwyno diweddariad ynglŷn â'r gwaith o ddatblygu gweithgareddau therapiwtig synhwyraidd.	Cwrdd â'r tîm amlddisgyblaethol er mwyn nodi cyfarpar sy'n briodol.  Yna, bydd y cyfarpar yn cael ei archebu.	Rheolwr yr uned – KE  Rheolwr yr uned – KE	Mehefin 2015  Gorffennaf 2015
	Dylai'r bwrdd iechyd gyflwyno diweddariad ynglŷn â'r gwaith o ailddatblygu'r ystafell ysmegu a	Cwrdd â'r tîm amlddisgyblaethol er mwyn nodi cyfarpar sy'n briodol.	Rheolwr yr uned – KE	Mehefin 2015

	ddatgomisiynwyd.	Yna, bydd y cyfarpar yn cael ei archebu.	Rheolwr yr uned – KE	Gorffennaf 2015
	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod uned aerdymheru'r gegin yn gweithio'n iawn.	Uned aerdymheru wedi'i thrwsio ar 11 Mai 2015  Cwrdd â'r tîm cadw tŷ i sicrhau bod systemau ar waith i gynnal y gegin.	Prif reolwr – SH  Prif reolwr – SH	Gorffennaf 2015  Gorffennaf 2015
<b>Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl</b>				
	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod terfyn amser neu ddyddiad adolygu wedi ei nodi ar bob ffurflen awdurdodi absenoldeb Adran 17.	Nodwyd hyn yn yr archwiliad mewnol o waith papur y Ddeddf Iechyd Meddwl.  Cynnal archwiliad arall o waith papur y Ddeddf Iechyd Meddwl er mwyn cadarnhau bod y camau gweithredu wedi eu cwblhau.	Prif reolwr – DG  Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl  Prif reolwr – DG	Mai 2015  Tachwedd 2015
	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ffurflen awdurdodi absenoldeb Adran 17 sydd wedi	Anfonwyd nodyn atgoffa at y meddygon a'r rheolwyr ar 6 Mai 2015.	Prif reolwr – DG  Gweinyddwr y	Mai 2015

	<p>dod i ben yn cael ei marcio'n annilys.</p>	<p>Nodwyd hyn yn yr archwiliad mewnol o waith papur y Ddeddf Iechyd Meddwl.</p> <p>Cynnal archwiliad arall o waith papur y Ddeddf Iechyd Meddwl er mwyn cadarnhau bod y camau gweithredu wedi eu cwblhau.</p>	<p>Ddeddf Iechyd Meddwl</p> <p>Prif reolwr – DG</p>	<p>Tachwedd 2015</p>
	<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd Iechyd sicrhau bod yr asesiad o risgiau posibl tra bod cleifion ar gyfnod absenoldeb yn cynnwys gwybodaeth am ba mor debygol yw'r risgiau hyn o gael eu gwireddu</p>	<p>Mae gwaith recriwtio eisoes yn mynd rhagddo, a chynhelir cyfweiliadau ar 12 Mai 2015.</p>	<p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Gorffennaf 2015</p>